Mae'r wybodaeth uchod yn ymwneud â gwasanaethau sy'n cael eu diogelu'n uniongyrchol gan BIAP trwy ein contractau ein hunain gyda byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a darparwyr eraill. Mae ystod o wasanaethau mwy arbenigol yn ogystal â gwasanaethau ambiwlans yn cael eu comisiynu ar y cyd gan fyrdau iechyd yng Nghymru drwy Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn comisiynu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol ar ran holl drigolion Cymru (e.e. rhaglenni sgrinio a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru).

Mae gan bob un o'n sefydliadau partner gyfrifoldebau pwysig hefyd i sicrhau bod y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu y gallai fod angen iddynt gymryd camau i drawsnewid eu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion cleifion yn eu dalgylch orau. Gall y newidiadau hyn effeithio ar y ffordd y mae trigolion Powys yn cael mynediad at wasanaethau y tu allan i'r sir.

Mae rhai enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Mae Rhaglen Trawsnewid Ysbytai ar y gweill ar hyn o bryd yn Amwythig a Telford. Ysbyty Brenhinol Amwythig fydd y brif ganolfan ar gyfer gofal brys a chritigol, gydag ystod o wasanaethau gan gynnwys

mamolaeth, newyddenedigol a strôc yn trosglwyddo o Telford i'r Amwythig.

- Mae angen i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wneud newidiadau brys dros dro i wasanaethau strôc, gan drosglwyddo'r gwasanaeth o Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful i Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Bydd gwasanaethau ambiwlans yn cludo trigolion Powys i'r ysbyty agosaf fel Ysbyty'r Faenor. Mae'r rhain yn fesurau dros dro, ac mae gwaith ar y gweill ar draws De-ddwyrain Cymru i gytuno ar ffurf barhaol y gwasanaethau hyn yn y dyfodol.
- Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi datblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer gwasanaethau, gan gynnwys ysbyty Gofal Brys a Gofal Cynlluniedig newydd yn ne ardal Hywel Dda. Bydd hyn yn cymryd rhai blynyddoedd i ddwyn ffrwyth. Yn y cyfamser maent yn datblygu opsiynau i sicrhau bod gwasanaethau allweddol fel strôc ac endosgopi yn parhau i fod yn ddiogel ac yn gynaliadwy ledled Gorllewin Cymru. Disgwylir ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion hyn yn ddiweddarach yn 2025.
- Yn Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon, mae adolygiad o wasanaethau strôc hefyd ar y gweill. Gall hyn arwain at newidiadau yng nghyffurfiad gwasanaethau strôc yn Ysbytai Brenhinol Swydd Henffordd a Swydd Gaerwrangon yn y dyfodol.

Bydd rhai o'r cynlluniau a'r cynigion hyn yn darparu mwy o wasanaethau i fwy o drigolion Powys yn agosach at

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys




ffiniau ein sir. Bydd eraill yn gweld rhai gwasanaethau yn symud ymhellach i ffwrdd o'n ffiniau fel y gellir cyflawni'r canlyniad clinigol gorau yn seiliedig ar y dystiolaeth glinigol, technolegau a thriniaethau diweddaraf. Rydym wedi ymrwmo i weithio'n agos gyda byrddau iechyd cyfagos ac Ymddiriedolaethau'r GIG, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth GIG Cymru, GIG Lloegr a phartneriaid eraill i eirioli dros boblogaeth Powys a sicrhau bod y cyhoedd yn cymryd rhan yn y broses. Er enghraifft, mae'n bwysig pan fydd gwasanaethau cyfagos yn datblygu cynigion ar gyfer newid, eu bod yn ystyried yr effaith teithio a thrafnidiaeth.

### Atal Salwch

Rydym yn wynebu gofynion digynsail ar ein system iechyd, ac ni fyddwn yn gallu mynd i'r afael â'r heriau hyn trwy ddod o hyd i effeithlonrwydd yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal. Mae'n bwysig i ni ystyried sut y gall BIAP gyfrannu at atal salwch a rheoli ein heffaith ein hunain ar y galw am wasanaethau.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond tua 20% o statws iechyd ein poblogaeth sy'n cyfrif am ofal iechyd, gyda ffactorau eraill fel ymddygiadau iechyd, amodau economaidd-gymdeithasol a'r amgylchedd corfforol yn cael mwy o effeithiau ar iechyd yn gyffredinol. Mae'r diagram isod yn dangos yn weledol gyfraniad prif ysgogwyr iechyd.



Er mwyn gwella iechyd ein poblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd, mae angen i ni feddwl yn ehangach am ddylanwadau ar iechyd ein poblogaeth ac, lle bo hynny'n bosibl, lleihau'r risg o ganlyniadau andwyol a'r angen am ofal iechyd yn codi yn y lle cyntaf. Mae gan ddulliau ataliol y potensial i fod yn fwy cost-effeithiol i'r pwr cyhoeddus na pharhau i ddatblygu gwasanaethau drud i drin salwch.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Rydym yn awyddus i ymgysylltu â chymunedau ym Mhowys i ddeall sut y gallem atal problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd rhag codi'n fwy systematig. Rydym yn awyddus i adeiladu ar gryfderau ein cymunedau presennol i yrru newidiadau tuag at atal. Enghreifftiau o'r mathau o ddulliau a allai ein helpu i fynd i'r afael â heriau yw:

- Datblygu gwasanaethau ataliol.
- Rhagnodi cymdeithasol
- Gweithredu ar benderfynyddion economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol iechyd (e.e. gwella diogelwch cymunedol, lleihau llygredd).

Mae rhagnodi cymdeithasol yn ffordd o gysylltu pobl â'u cymuned i reoli eu hiechyd a'u lles yn well. Gall helpu i rymuso unigolion i gydnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain ac i gysylltu â'u cymunedau eu hunain am gefnogaeth gyda'u hiechyd a'u lles.

Mae'r trydydd sector (sefydliadau anllywodraethol, nid-er-elw fel elusennau, mentrau cymdeithasol, a grwpiau cymunedol) yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi lles mewn cymunedau ledled Powys. Mae cyflwyno'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Rhagnodi Cymdeithasol yn cyflwyno cyfleoedd pellach yn lleol i wella lles a chefnogi'r newid i atal ac ymyrraeth gynnar trwy ymyrraeth anfeddygol.



## 7. Gofal Sylfaenol

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol.

Mae Gofal Sylfaenol yn cynnig ystod o ofal i breswylwyr trwy bractisau meddygon teulu, practisau deintyddol, fferyllfeydd ac optometryddion. Rhan o hyn yw sut mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn gweithio gyda'i gilydd a gwasanaethau eraill yn y gymuned trwy glystyrau.

Mae'r gwasanaeth Gofal Sylfaenol y tu allan i oriau yn darparu mynediad brys pan fydd practisau meddygon teulu arferol ar gau. Mae gwasanaeth GIG 111 Cymru ar gael 24 awr y dydd i ddarparu gwybodaeth a chynghor gofal brys gan gynnwys atgyfeirio at ofal deintyddol brys a meddyg teulu y tu allan i oriau. Er enghraifft, gyda'r nos neu ar y penwythnos, bydd Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau yn asesu ac yn trin cleifion yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol.

Mae'r "Model Gofal Sylfaenol i Gymru" yn amlinellu 13 o fesurau canlyniadau sydd eu hangen i gyflawni "Cymru Iachach". Mae'n canolbwyntio ar sut rydym yn creu 'cyhoedd gwybodus' a 'chymunedau wedi'u grymuso' gyda ffocws ar les, atal a hunan-ofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau arwyddion a brysbennu diogel ac effeithiol, gyda mynediad at ddiagnosteg gymunedol a gwasanaethau lleol sy'n cefnogi gofal o ansawdd uchel.

## Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae 16 o bractisau meddygon teulu ledled Powys, gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol sy'n ymroddedig ac yn angerddol am ofal cleifion a darparu gofal yn agosach at adref. Er bod llawer o bobl ym Mhowys yn cydnabod y gallai fod angen iddynt deithio am wasanaethau mwy arbenigol, maen nhw'n disgwyl i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol fod gerllaw.

Mae galw cynyddol am wasanaethau Practis Meddygon Teulu. Gall hyn arwain at staff yn gweithio oriau hir ac o dan straen sylweddol. Mae hyn yn cael ei waethygu gan dasgau gweinyddol sy'n lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer gofal cleifion. Rydym yn gwybod y gall recriwtio fod yn anodd gyda rhai practisau yn profi hyn yn fwy brwd. Yn genedlaethol, mae pryder am orflino ac anfodlonrwydd o ran eu swyddi ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal sylfaenol oherwydd dwyster y llwyth gwaith. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae gweithgarwch ac apwyntiadau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol wedi tyfu ym Mhowys gyda bron i filiwn o apwyntiadau bob blwyddyn, a dyma'r lefel uchaf o weithgarwch y pen yng Nghymru.

Yn ogystal â'r gwasanaethau craidd y mae'n rhaid i bob Practis Meddyg Teulu eu cynnig, mae gennym y nifer uchaf o Wasanaethau Atodol o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Mae hyn yn cynnwys cynnig gwasanaethau clinigol ychwanegol fel gwasanaethau atal cenhedlu estynedig, gwasanaethau methiant y galon a gwasanaethau mân lawdriniaeth estynedig. Mae gan rai

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



meddygon teulu hefyd gonaethau gyda BIAP i ddarparu gofal clinigol yn ein hysbytai cymunedol.

Mae cyflwyno brysbennu cleifion a llwyfannau digidol wedi helpu Practisau Meddygon Teulu i reoli'r galw, ond mae mwy y gallwn ei wneud i gefnogi hyn tra hefyd yn cydnabod anghenion cyfathrebu gwahanol gleifion.

Mae sicrhau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol cryf a chynaliadwy yn bwysig i'n holl boblogaeth Powys. Bydd hyn yn darparu'r gofal a'r driniaeth gychwynnol pan fydd ei angen ar bobl, yn darparu parhad ac yn meithrin ymddiriedaeth fel y gallwn dyfu'r gwasanaethau yn ein cymunedau ym Mhowys.

Mae'r gweithlu cyffredinol ym Mhractis Cyffredinol Powys yn fenywod yn bennaf, sy'n adlewyrchu'n arbennig y gyfran uchel o fenywod sy'n gweithio mewn rolau gweinyddu gofal sylfaenol a nyrsio. Mae'r proffil oedran ar draws y gweithlu wedi'i wasgaru'n weddol gyfartal, ond gyda chyfran sylweddol o staff yn y grwp oedran 55+. Mae dros draean (36%) o feddygon teulu parhaol ym Mhowys yn 50 oed a hŷn.

Nod y cynllun gweithlu gofal sylfaenol cenedlaethol yw datblygu model gweithlu cynaliadwy. Mae'r meysydd ffocws allweddol yn cynnwys:

- Ymgorffori gwaith aml-broffesiynol ym mhob sector gan gynnwys gofal sylfaenol brys.
- Ehangu hyfforddiant ac addysg.

- Manteisio ar dechnolegau newydd a datblygiadau gwyddonol i ryddhau amser i ofalu.

## Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chymunedol

Darperir gwasanaethau deintyddol ym Mhowys drwy Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol (gan gynnwys deintyddion y stryd fawr sydd â chontractau gyda'r GIG i ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG) a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol (a ddarperir yn uniongyrchol gan BIAP).

Mae heriau sylweddol yn parhau o ran mynediad at wasanaethau deintyddol gofal sylfaenol ledled y DU ac mae'r rhain hefyd yn cael eu profi ym Mhowys. Roedd Powys yn fabwysiadwr cynnar o restr aros ganolog ar gyfer gwasanaethau deintyddol y GIG drwy linell gymorth ledled y sir, a dyma'r ardal beilot gyntaf ar gyfer Porth Mynediad Deintyddol cenedlaethol newydd i'w gwneud hi'n haws fyth i bobl ymuno â'r rhestr aros a'n helpu i ddeall anghenion mynediad deintyddol yn well. Mae'r porth hwn bellach wedi'i gyflwyno ledled y wlad.

Ym mis Ionawr 2025 nododd y Porth Mynediad Deintyddol 4,500 o oedolion sy'n aros am fynediad at driniaeth ddeintyddol arferol. Mae plant yn cael eu dyrannu i bractis cyn gynted ag y byddant yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros. Bydd y gwasanaeth hwn yn ein helpu fwyfwy i fapio anghenion mynediad deintyddol, ac rydym yn gwybod bod gennym nifer fawr o bobl ym Mhowys nad

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



dynt ar hyn o bryd yn gallu cael mynediad at ofal deintyddol arferol na thriniaeth orthodontig amserol.

Mae natur wledig Powys yn gwaethygu anawsterau ymhellach wrth ddarparu gofal deintyddol hygyrch, gan arwain yn aml at amseroedd teithio hirach a llai o apwyntiadau ar gael. Mae prinder cyffredinol o ddeintyddion ar draws Powys ers sawl blwyddyn, gan ei gwneud hi'n anodd i breswylwyr ddod o hyd i ddeintydd neu gael apwyntiadau amserol.

Mae'r Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol yn darparu mynediad deintyddol brys yn ogystal â chyrsgiau triniaeth i boblogaeth Powys. Rydym wedi bod yn ffodus i dyfu'r tîm hwn sydd wedi gallu darparu gwasanaethau mewn ardaloedd lle gallai contractau Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol fod wedi dod i ben. Mae cyfle pellach ar gyfer twf a datblygu'r gweithlu o fewn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, yn ogystal â nodi cyfleoedd i dyfu mynediad deintyddol.

Bydd yn hanfodol bwysig deall y blaenoriaethau ar gyfer mynediad, yn enwedig gan nad oes gofyniad am 6 neu 12 adolygiad misol mwyach, oni bai bod pydredd deintyddol penodol.

### Gwasanaethau Optometreg

Nod newidiadau cenedlaethol diweddar i'r contract ar gyfer gwasanaethau llygaid gofal sylfaenol ("optometreg") yw darparu mwy o wasanaethau gofal llygaid yn agosach at adref. Mae hyn yn cynnwys

ehangu'r gwasanaethau gofal llygaid craidd a gynigir mewn gofal sylfaenol i gynnwys archwiliadau llygaid yn ogystal â phrofion llygaid. Yn ogystal, mae diwygio contractau yn galluogi gwasanaethau gofal llygaid gwell ar gyfer cyflyrau llygaid penodol i gael eu darparu o bractisau Optometreg, ac mae llwybrau lleol ar gyfer glawcoma, retina meddygol a hydroxychloroquine yn cael eu datblygu.

Ar hyn o bryd mae sgiliau estynedig optometrydd cymharol gyfyngedig i ddarparu gwasanaethau gwell. Mae gallu optometrydd i ddatblygu'r cymhwyster gofynnol ochr yn ochr â chynnal mynediad i wasanaethau gofal llygaid cyffredinol yn heriol. Bydd hyn yn effeithio ar gyflymder datblygu ac ehangu'r gwasanaethau hyn.

Mae angen gwaith pellach i sicrhau y gallwn barhau i dyfu'r gweithlu a darparu ystod o wasanaethau gofal llygaid yn y gymuned. Disgwylir y gallwn ddod â mwy o wasanaethau'n agosach at adref a lleihau'r angen am ofal yn yr ysbyty.

Mae gwasanaethau gofal eilaidd cymhleth, gofal brys a gofal llygaid brys yn cael eu darparu drwy wasanaethau cyrraedd (e.e. arbenigwyr o'r tu allan i'r sir sy'n darparu gwasanaethau clinigol yn ysbytai Powys) a gwasanaethau a gomisiynwyd (e.e. mynychu Ysbyty Cyffredinol Dosbarth y tu allan i Bowys). Mae daearyddiaeth Powys yn golygu bod gennym berthynas â nifer o ysbytai cyfagos, a gall hyn gyflwyno cymhlethdod a heriau

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



pellach i ni wrth ddatblygu a gweithredu llwybrau gofal newydd.

### Fferyllfeydd Cymunedol

Mae 23 o fferyllfeydd cymunedol wedi'u gwasgaru ledled sir Powys. Mae Asesiad Anghenion Fferyllol Powys yn darparu gwybodaeth fanylach am ddarpariaeth gwasanaeth a bylchau posibl ac fe'i defnyddir i lywio newidiadau i wasanaethau a cheisiadau am gontractau. Disgwylir i hyn gael ei adolygu nesaf yn ystod 2025/26, gydag Asesiad wedi'i ddiweddarau wedi'i gyhoeddi yn 2026.

Darperir gwasanaethau fferylliaeth gymunedol yn unol â'r contract fferylliaeth gymunedol genedlaethol. Nod hyn yw cyflawni'r weledigaeth a nodir yn "Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach", gan alluogi fferyllwyr i ganolbwyntio ymhell y tu hwnt i ddsbarthu presgripsiynau ac yn gynyddol ar ddarparu gwasanaethau clinigol i gymunedau lleol.

Mae pob fferyllfa ledled Powys yn cynnig y Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin, Cyflenwi Meddyginiaeth Brys a Gwasanaethau Atal Cenhedlu. Mae'r rhain yn agweddau mandadol ar y Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol (GFFGG). Mae hyn yn helpu i sicrhau bod sgiliau fferyllwyr yn cael eu defnyddio ledled Powys, a hefyd yn lliniaru rhywfaint o'r pwysau ar wasanaethau meddygon teulu a thu allan i oriau.

Mae rhai fferyllfeydd hefyd yn cynnig agweddau nad ydynt yn orfodol o'r GFFGG, sef y Gwasanaeth Profi a Thrin Llwnc Tost, a'r Gwasanaeth Haint y Llwybr Wrinol.

Mae'r contract fferyllfa hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer 'gwasanaethau fferylliaeth ychwanegol'. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth rhoi'r gorau i ysmygu, cynllun lleihau gwastraff, pecynnau meddyginiaethau achub anadlol, gweinyddu dan oruchwyliaeth, mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol, dychwelyd offer miniog cleifion, cyfnewid nodwyddau a chwistrellau, adolygu anadlwyr, a darpariaeth cofnod gweinyddu meddyginiaethau. Mae gwefan y bwrdd iechyd yn darparu rhestr ddefnyddiol o ble mae pob gwasanaeth yn cael ei ddarparu ym Mhowys.

Mae mynediad i fferyllwyr sy'n gallu presgripsiynu'n annibynnol (a elwir yn 'fferyllwyr annibynnol') mewn fferyllfeydd cymunedol ym Mhowys wedi cynyddu. Ar hyn o bryd mae saith contractwr yn cynnig gwasanaeth presgripsiynu, a disgwylir i fwy ymuno â'r rhestr yn ystod 2025/26. Y brif her sy'n wynebu fferyllwyr sy'n dymuno hyfforddi fel presgripsiynydd annibynnol yw parhau i fod y gallu i sicrhau Ymarferydd Presgripsiynu Dynodedig i ddarparu goruchwyliaeth, cymorth a phrofiad ymarferol mewn maes clinigol yn ystod hyfforddiant

Ledled y DU, mae contractwyr fferylliaeth gymunedol yn wynebu amseroedd heriol, yn enwedig o ran cyllid a gweithlu. Ledled Cymru bu gostyngiad o 2.7% yn nifer y

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



fferyllfeydd cymunedol yn 2023/24 er bod y nifer yn parhau'n sefydlog ym Mhowys. Mae cynnydd hefyd yn nifer y contractwyr sy'n cyflwyno ceisiadau i leihau eu horiau agor.

Ar hyn o bryd ym Mhowys mae mynediad cyfyngedig iawn at wasanaethau fferyllfa ar ddydd Sul ac ar ôl 5.30pm yn ystod yr wythnos.

### Clystyrau Gofal Sylfaenol

Mae Clystyrau Gofal Sylfaenol yn rhan allweddol o'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Maent yn dod â phartneriaid lleol ynghyd sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a gofal ar draws ardal ddaearyddol, fel arfer yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000 o bobl. Eu pwrpas yw deall yr heriau a'r bylchau gwasanaeth lleol i'r boblogaeth a gweithio gyda'i gilydd i wneud newidiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol.

Ar draws Powys mae tri Chlwstwr Gofal Sylfaenol: Gogledd Powys, Canolbarth Powys a De Powys. Maent wedi gweithio gyda'i gilydd ers dros 10 mlynedd, gan ehangu dros y blynyddoedd diwethaf i sicrhau eu bod yn cynnwys cynrychiolaeth o'r holl grwpiau proffesiynol sy'n darparu Gofal Sylfaenol fel Ymarferwyr Cyffredinol, Fferyllwyr Cymunedol, Optometryddion, Deintyddion, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Nyrsio, yn ogystal â chynrychiolaeth o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae pob grŵp proffesiynol Gofal Sylfaenol hefyd yn gweithio gyda'i gilydd mewn Cydweithredfa, sy'n fforwm

i'r grŵp proffesiynol drafod heriau lleol a syniadau ar sut i fynd i'r afael â'r rhain. Mae clystyrau yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r syniadau hyn ac i ddatblygu a chyflawni cynlluniau.

Er bod Clystyrau ar waith, mae angen mwy o ddatblygiad i gefnogi dull cynllunio cadarn a darparu gwasanaethau ar y cyd. Mae angen ystyriaeth bellach o'r aliniad rhwng y grwpiau hyn a'r Awdurdod Lleol a'r trydydd sector. Mae angen hefyd sicrhau y gellir gweithredu newidiadau cadarnhaol yn gyflym, a bod datblygiad teg ar draws Powys i gyflawni ar gyfer y boblogaeth gyfan.

Bydd sicrhau bod Clystyrau Gofal Sylfaenol a Chydweithredfeydd yn cael eu cefnogi yn hanfodol er mwyn galluogi ymateb ar y cyd i'r heriau mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol – yn ogystal â pharhau i leihau'r angen i deithio am ofal aciwt ac arbenigol y tu allan i'r sir.



## 8. Cymuned ac Eiddilwch

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer ein gwasanaethau cymunedol, ac ar gyfer ymateb i anghenion pobl sy'n byw gydag eiddilwch.

Mae ein gwasanaethau cymunedol yn cefnogi pobl â gofal brys ac arferol, gan gynnwys pobl sydd â chyflyrau hirdymor. Maent yn cynnwys ystod eang o gymorth fel nyrsio ardal, gofal lliniarol, nyrsio arbenigol, therapiâu cymunedol, gwasanaethau adsefydlu a chleifion mewnol. Mae'r timau hyn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid gofal sylfaenol a'r trydydd sector i ddarparu gofal yn y gymuned.

Mae eiddilwch yn gyflwr hirdymor ac yn effeithio ar allu person i ymdopi â hyd yn oed mân salwch, haint, neu ddigwyddiadau bywyd straen fel newid mewn amgylchiadau byw, neu brofedigaeth.

### Dull Cartref yn Gyntaf

Mae'n bwysig ein bod yn cefnogi pobl i aros gartref lle bynnag y bo modd, a'n bod yn sicrhau bod pobl yn dychwelyd adref o'r ysbyty yn fwy heini ac yn gyflymach. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau adsefydlu ac ailalluogi cymunedol cyfyngedig sy'n gweithio yng nghartrefi pobl sy'n profi trafferthion oherwydd daearyddiaeth fawr Powys.

Mae clystyrau BIAP a gofal sylfaenol wedi buddsoddi mewn swyddi newydd i gefnogi unigolion sy'n byw gydag

eiddilwch i aros gartref. Bydd gwerthuso'r gwasanaethau hyn yn ein helpu i ddeall effaith y rolau hyn er mwyn gwella gofal a chanlyniadau ar gyfer y dyfodol.

Rydym hefyd wedi creu Llwybr Atal Cwypmudiadau newydd, a'n cam nesaf fydd datblygu gwasanaeth ymateb cyflym yn y gymuned i helpu pobl sydd wedi cwmpo i aros gartref lle bo'n ddiogel.

### Gwasanaethau Cymunedol

Mae sawl tîm nyrsio ac ymarferwyr arbenigol bach yn y gymuned ym Mhowys, sy'n darparu cyngor, cymorth a thriniaeth i gleifion sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor, fel diabetes a chyflyrau anadlol. Mae'r timau hyn yn gweithio'n agos gyda'n timau nyrsio a therapi cymunedol craidd. Yn aml mae ganddynt wahanol rolau a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ynddynt i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau. Fodd bynnag, mae gan y timau hyn nifer gymharol fach o staff wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws Powys, sy'n ei gwneud hi'n anoddach parhau i ddarparu gwasanaethau pan fydd staff yn cymryd gwyliau neu'n sâl.

### Gofal Iechyd Parhaus

Mae rhai pobl sydd ag anghenion iechyd cymhleth hirdymor yn gymwys i gael gofal iechyd a chymdeithasol am ddim a drefnir ac a ariennir yn unig gan y GIG. Gelwir hyn yn ofal iechyd parhaus y GIG.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Rhwng 2019/20 a 2023/24, mae costau cyffredinol gofal iechyd parhaus wedi cynyddu gan 128%. Mae gan wella gwasanaethau cymunedol craidd y potensial i gynnig mwy o opsiynau i bobl sydd angen gofal iechyd parhaus, hyrwyddo annibyniaeth trwy gefnogaeth lapio gan dimau gofal iechyd sy'n adnabod y claf – a lleihau'r angen am wasanaethau gofal iechyd parhaus a ariennir ar wahân.

### Derbyniadau i'r ysbyty a gwelyau

Yn ystod 2023/24, roedd 39,779 o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer trigolion Powys. Roedd trigolion Powys yn yr ysbyty am gyfanswm o 153,670 o 'ddiwrnodau gwely' gyda chost o dros £104 miliwn. Ar gyfartaledd, derbyniwyd 109 o gleifion Powys i ysbyty bob dydd, ac roedd 421 o welyau ar gyfartaledd yn cael eu meddiannu gan drigolion Powys bob dydd. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ysbytai ym Mhowys a'r rhai y tu allan i'r sir.

O fewn y sir ar hyn o bryd mae gennym 146 o welyau (bydd y ffigur gwirioneddol yn amrywio i adlewyrchu gofynion tymhorol) ar draws 9 safle cymunedol. Mae hyn yn ychwanegol at Ysbyty Tref-y-clawdd (lle mae'r ward wedi'i hail-ffocysu dros dro fel uned ailalluogi gan weithio mewn partneriaeth â Cottage View) a Chanolfan Iechyd a Gofal Glan Irfon yn Llanfair-ym-Muallt.

Mae cyfraddau swyddi gwag staff mewn wardiau cleifion mewnol cymunedol yn uchel, sy'n golygu bod bron i chwarter yr holl welyau cymunedol (42 gwely) ym Mhowys yn cael eu cefnogi gan staffio asiantaethau. Nid

yw hyn yn gynaliadwy ac yn bwysicach fyth nid yw'n sicrhau parhad gofal o ansawdd uchel. Mae angen i ni edrych ar sut rydym yn defnyddio gwelyau cleifion mewnol cymunedol ledled Powys i wella ansawdd a gwneud gwell defnydd o adnoddau.

Mae tystiolaeth yn dangos y gall 10 diwrnod yn yr ysbyty arwain at gyfwerth â gwerth 10 mlynedd o heneiddio yng nghyhyrau pobl dros 80 oed. Gelwir hyn hefyd yn 'ddadgyflyru' a gall gael effaith sylweddol ar berson hŷn. Mae ymchwil genedlaethol yn dangos bod un o bob chwech o bobl hŷn sydd fel arfer yn cerdded yn annibynnol angen help i gerdded ar ryddhau o'r ysbyty.

Dylai hyd yr arhosiad mewn ysbyty felly fod mor fyr â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod cenedlaethol i leihau nifer yr arhosiad yn yr ysbyty sy'n fwy na 21 diwrnod. Er bod hyd yr arhosiad wedi gostwng yn lleol yn 2024/25, ar hyn o bryd yn ysbytai cymunedol Powys mae'r hyd arhosiad ar gyfartaledd yn 40 diwrnod, sy'n rhy hir.

Mae dull cartref yn gyntaf yn allweddol i gadw pobl gartref ac atal cynnydd mewn anghenion sy'n arwain at dderbyn i'r ysbyty. Os nad ydym yn newid y ffordd rydym yn darparu gofal cymunedol byddwn yn parhau i weld dadgyflyru sy'n gysylltiedig ag ysbytai sy'n achosi niwed i gleifion.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



### Oedi mewn Llwybrau Gofal

Mae 65% o bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty yn "dadgyflyru" o fewn 48 awr. Ond yn aml mae oedi hir wrth alluogi pobl i drosglwyddo adref o'r ysbyty, yn enwedig ar ôl derbyniad brys.

Unwaith y bydd claf yn barod i adael yr ysbyty ('optimeiddio'n gorfforol') gall fod oedi wedi'u hachosi gan yr angen i gynnal asesiadau manwl i gael mynediad at ofal cartref neu leoliadau cartref gofal. Arfer gorau fyddai cynnal yr asesiadau hyn gartref lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd maen nhw'n tueddu i ddigwydd yn yr ysbyty.

Mae lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal yn arbennig o heriol ac mae'r heriau capasiti mewn gofal cymdeithasol yn ffactor arwyddocaol.

### Mynediad at Ofal Brys ac Argyfwng

Oherwydd natur wledig a phoblogaeth wasgarog Powys, bydd y mwyafrif o ofal ysbyty brys yn cael ei ddarparu y tu allan i'r sir mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth. O fewn y sir rydym yn darparu'r gwasanaethau gofal brys hynny y mae'n ddiogel ac yn briodol i'w darparu yn ein cyd-destun gwledig, gan gynnwys Unedau Mân Anafiadau dan arweiniad nyrsys.

Mae'r galw am ofal brys ac argyfwng yn cynyddu. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o bobl hŷn o fewn y

boblogaeth, sy'n fwy tebygol o gael anghenion gofal brys neu argyfwng.

Mae amseroedd perfformiad ambiwlans Cymru yn parhau i fod yn wael ym Mhowys, gyda 47.9% o alwadau categori coch yn derbyn ymateb o fewn y targed 8 munud. Ar hyn o bryd mae amseroedd aros adrannau brys yn fyrrach yn ysbytai Cymru nag yn ysbytai Lloegr y mae ein preswylwyr yn cael mynediad iddynt, ond mae pob adran achosion brys yn wynebu heriau mawr wrth ddarparu gofal amserol. Mae oedi wrth ryddhau o ysbytai aciwt yn golygu bod adrannau brys yn wynebu heriau wrth dderbyn cleifion i'r wardiau. Mae hyn yn ei dro yn golygu bod y gwasanaeth ambiwlans yn profi oedi wrth drosglwyddo cleifion i dimau adran achosion brys. Mae cleifion yn profi oedi wrth aros am dderbyniad brys, ac nid yw ambiwlansys yn cael eu rhyddhau i ofalu am gleifion brys eraill.

Ym Mhowys, mae BIAP yn gweithredu pedair Uned Mân Anafiadau (UMA) sy'n cael eu rhedeg gan ymarferwyr nyrsio brys. Mae'r rhain yn parhau i berfformio'n dda, gyda'r holl gleifion yn cael eu gweld o fewn y targed 4 awr. Mae ffigurau perfformiad diweddar yn dangos bod yr amser canolrifol i frysbenno yn 5 munud, a'r amser canolrifol i asesu gan uwch glinigydd oedd 7 munud sydd ymhell o fewn targedau cenedlaethol. Mae galw isel iawn am wasanaethau mân anafiadau cymunedol dros nos ac mae'r unedau hyn ar gau dros dro rhwng 8pm ac 8am. Mae'r newidiadau dros dro hyn yn destun monitro

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



parhaus, ac mae disgwyl adolygiad ac argymhellion ar y camau nesaf yn Haf 2025.

Mae llawer o bractisau meddygon teulu Powys hefyd yn darparu gwasanaethau mân anafiadau. Mae ffynonellau ehangach o gyngor a chymorth brys yn cynnwys fferyllfeydd a GIG 111 Cymru.

### Gofal Lliniarol a Diwedd Oes

Darperir gofal lliniarol i bobl â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd yn ddelfrydol yn y cartref. Gall cleifion hefyd gael eu derbyn i ysbytai cymunedol ym Mhowys i helpu i reoli eu symptomau neu le nad oes digon o gymorth ar gael yn y cartref.

Rydym yn gwybod y byddai'n well gan lawer o bobl sydd â diagnosis lliniarol farw gartref, neu rywle sy'n teimlo fel eu cartref, yn agos at eu hanwyliaid. Mewn gwirionedd, o'r cleifion hynny o dan ofal y tîm Gofal Lliniarol Arbenigol, roedd tua hanner yn gallu marw gartref. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o farwolaethau trigolion Powys yn digwydd yn yr ysbyty, ac mae'r rhain y tu allan i'r sir yn bennaf. Dim ond 31% o farwolaethau trigolion Powys oedd mewn preswylfa breifat yn ystod 2021/22, ac roedd 13% yn ysbytai Powys.

Mae cyfleoedd i gryfhau gwasanaethau cymunedol i gefnogi pobl gyda'u dewisiadau ar ddiwedd oes.

### Gweithlu Cymunedol ac Eiddilwch

Mae ein dibyniaeth ar nyrsio asiantaeth yn parhau i fod yn rhy uchel ac nid yw'n gynaliadwy. Mae hyn er gwaethaf ymdrechion cydgysylltiedig i leihau ein swyddi gwag gan gynnwys 'tyfu ein gweithlu ein hunain' trwy gyfleoedd i staff presennol ddatblygu eu sgiliau (fel ein Rhaglen Darpar Nyrsys), a recriwtio'n llwyddiannus nyrsys o dramor.

Ar hyn o bryd rydym yn treialu model gofal ysbyty gwahanol ym Mhowys, sy'n cynnwys wardiau cleifion mewnol ysbytai cymunedol, unedau cartref parod, unedau adsefydlu cleifion mewnol ac unedau ailalluogi. Mae hyn yn dilyn cyfnod o ymgysylltu yn ystod haf 2024 ar gynigion ar gyfer newidiadau dros dro i wasanaethau cleifion mewnol. Rydym yn monitro'r newidiadau dros dro hyn dros y cyfnod peilot chwe mis ac eisoes wedi gweld gostyngiad yn y defnydd o staff asiantaeth. Mae'r newidiadau dros dro hyn yn destun monitro parhaus, ac mae disgwyl adolygiad ac argymhellion ar y camau nesaf yn Haf 2025.

Mae angen i ni ddatblygu ac uwchsgilio ein gweithlu i gefnogi pobl gartref lle mae'n ddiogel ac yn briodol ac atal anghenion rhag cynyddu. Bydd creu gweithlu mwy hyblyg sy'n gweithio ar y cyd â gofal sylfaenol, partneriaid trydydd sector a darparwyr gofal cymdeithasol yn allweddol i ehangu a chryfhau gofal cymunedol. Mae hyn yn hanfodol wrth atal anghenion rhag cynyddu,

## **Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd**

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Ileihau derbyniadau i'r ysbyty a gwella profiad cleifion trwy ddull mwy cydgysylltiedig.



## 9. Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae BIAP yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau iechyd meddwl a lles sy'n darparu asesu, gofal a thriniaeth i bobl o bob oedran, gydag ystod eang o gyflwyniadau iechyd meddwl, ar draws pob lefel o gymhlethdod, risg ac angen clinigol.

Ym Mhowys, rydym yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymunedol yn ogystal â gwasanaethau cleifion mewnol. Mae'r gwasanaethau cleifion mewnol presennol yn cynnwys dwy ward cleifion mewnol i oedolion hŷn (Llandrindod, Ystradgynlais) ac un ward i oedolion (Bronllys), gyda ward cleifion mewnol arall i oedolion hŷn yn Aberhonddu sydd ar gau dros dro.

Oherwydd natur wledig Powys, darperir rhai gwasanaethau iechyd meddwl mwy arbenigol trwy atgyfeirio at wasanaethau y tu allan i'r sir.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau partner i ddadansoddi natur newidiol ceisiadau am gymorth iechyd meddwl ac i gyd-ddylunio atebion mewn ymateb. Mae'r 'pwynt mynediad sengl' i wasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys a sefydlwyd yn ddiweddar (wedi'i alinio â datblygiad y 'GIG

111 Pwyswch 2 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl (cenedlaethol) eisoes wedi gwella mynediad at wasanaethau ac yn galluogi ymateb cyflymach i gleifion.

### Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl

Mae anableddau dysgu yn effeithio ar tua 1.5 miliwn o bobl yn y DU ac maent yn gyflyrau cyffredin gydol oes nad ydynt yn salwch nac yn afiechyd. Disgwylir y bydd nifer y bobl sydd ag anabledd dysgu yn cynyddu gan dros 10% erbyn 2030, a rhagwelir twf yn gymhlethdodau anableddau dysgu hefyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gwell cefnogaeth i bobl sydd ag anableddau dysgu yn galluogi mwy o bobl i fyw'n hirach, gan gynnwys mwy o bobl ifanc sydd ag anableddau cymhleth sy'n byw hyd at oedolion.

Gall rhai pobl sydd ag anabledd dysgu hefyd fod â chyflyrau iechyd corfforol a / neu feddyliol eraill. Mae ein tîm Anabledd Dysgu yn darparu gofal iechyd cymunedol arbenigol i oedolion sydd â diagnosis o anabledd dysgu, ac rydym yn comisiynu rhai lleoliadau ysbyty a gofal arbenigol ar gyfer pobl sydd ag anabledd dysgu sydd hefyd â salwch meddwl cymhleth a allai fod yn gwrthsefyll triniaeth.

Mae'r twf mewn cymhlethdod a chyd-forbidrwydd ymhlith pobl sydd ag anabledd dysgu yn cyfrannu at bwysau cynyddol mewn gofal cleifion mewnol iechyd meddwl, a nifer y bobl sydd angen lleoliadau arbenigol a ariennir gan Ofal Iechyd Parhaus y GIG.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



### Iechyd Meddwl a Chymdeithas

Mae stigma a gwahaniaethu sylweddol yn parhau i fod yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Gall hyn waethygu anawsterau pobl a'i gwneud hi'n anoddach iddynt wella. Gall stigma gael ei waethygu ymhellach i bobl sy'n byw gyda salwch meddwl ac anabledd dysgu.

Mae tystiolaeth<sup>4</sup> yn cadarnhau bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl ymhlith y lleiaf tebygol o unrhyw grwpiau sydd â chyflwr iechyd hirdymor i ddod o hyd i waith, byw mewn tai o ansawdd da a chael eu cynnwys yn gymdeithasol mewn cymdeithas brif ffrwd. Mae pobl sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl difrifol, gan gynnwys anghenion emosiynol cymhleth, ar gyfartaledd yn byw hyd at 20 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol ac yn llai tebygol o ddiwallu eu hanghenion iechyd corfforol.

Gall iechyd meddwl gwael yn y boblogaeth hefyd arwain at lai o gynhyrchiant, mwy o absenoldeb, a chostau gofal iechyd a lles uwch.

Mae'r pandemig COVID-19, ac yna ansefydlogrwydd economaidd byd-eang a gwrthdaro gwleidyddol, wedi cyfrannu'n sylweddol at iechyd meddwl gwael ymhlith rhai o'r boblogaeth. Gall dirywiadau economaidd arwain

at gyflyrau sy'n cynyddu lefelau straen yn uniongyrchol, a all gyfrannu at anhwylderau iechyd meddwl.

Mae sawl ffactor wedi'i amlygu yn Asesiad Anghenion Poblogaeth Powys sy'n cyfrannu at iechyd meddwl gwael a galw cynyddol ar wasanaethau, megis amddifadedd a thlodi, gwledig ac unigedd, troseddau a gofnodwyd, digartrefedd a chamddefnyddio sylweddau. Mae gan Bowys 9 ACEHI yn y 30% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac mae amddifadedd uchel yn sbardun allweddol i iechyd meddwl a chorfforol gwael.

Mae angen camau pellach i wella lles, gyda ffocws ar atal, i atal anghenion pobl rhag gwaethygu, ac i reoli cymhlethdod cynyddol y galw am iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

### Galw Parhaus am Wasanaethau

Mae'r galw am wasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu arbenigol yn parhau i dyfu o ran niferoedd atgyfeiriadau cyffredinol; ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwasanaethau ataliol; ac ar gyfer ehangder o is-arbenigeddau seiciatrig. Mae ein gwasanaethau iechyd meddwl hefyd yn gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau pobl sydd â chyflyrau iechyd cyd-ddigwydd 'cyd-forbid' (h.y. dau neu fwy), megis gorbryder gyda chamddefnyddio sylweddau, cynnydd mewn atgyfeiriadau i bobl sy'n

---

<sup>4</sup>[Effeithiau tlodi ar iechyd meddwl ym mhoblogaeth oedran gweithio y DU: dadansoddiadau achosol o Astudiaeth Hydredol Aelwydydd y DU | Cyfnodolyn Rhynghwladol Epidemioleg | Oxford Academic](#)

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



niwrowahanol a hefyd yn profi problemau iechyd meddwl, cynnydd mewn atgyfeiriadau ar gyfer therapi trawma arbenigol (fel Dadsensiteiddio ac Ailbrosesu Symudiadau Llygaid), a hefyd mae mwy o bobl sydd ag anableddau dysgu'n cael eu gweld mewn lleoliadau iechyd meddwl aciwt i oedolion.

Mae pwysau cynyddol yn y galw a'r capasiti yn ein system iechyd meddwl yn golygu y gall pobl aros yn rhy hir am asesiad a/neu driniaeth. Os na fyddwn yn ailgynllunio'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, mae modelu yn dangos y gall atgyfeiriadau i wasanaethau iechyd meddwl oedolion ac oedolion hŷn gynyddu hyd at 33% mewn 10 mlynedd. Byddai hyn yn golygu y gallai gwasanaethau iechyd meddwl gael eu llethu gan gynnydd yn y galw.

Bydd methu â thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys yn arwain at amseroedd aros hirach. Bydd hyn yn cynyddu'r risg glinigol ac yn gwaethygu canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, a hefyd yn peryglu pwysau ariannol heb eu rheoli y bydd angen eu bodloni o'r pwrs cyhoeddus.

Er bod heriau wrth ymateb i'r galw cynyddol, mae gan ein timau enghreifftiau o gynnydd cadarnhaol. Er enghraifft, gwelodd asesiadau'r Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol i Oedolion o fewn 28 diwrnod ar ôl derbyn yr atgyfeiriad i 78.7% ym mis Rhagfyr 2024 (bron â chyrraedd y targed cenedlaethol o 80%). Mae hyn yn

welliant sylweddol ar berfformiad yn gynharach yn y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae galw cynyddol, a breuder y gweithlu, gan gynnwys salwch a swyddi gwag, yn parhau i herio ac yn golygu nad yw safonau perfformiad yn cael eu cyflawni'n gyson. Er enghraifft, roedd nifer y cleifion sy'n oedolion sydd â chynlluniau triniaeth gofal cyfredol yn 80.6% yn erbyn y targed cydymffurfio cenedlaethol gofynnol o 90%, a dim ond 63.1% o gleifion sy'n aros yn llai na'r targed 26 wythnos ar gyfer gwasanaethau Therapi Seicolegol.

### Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio

Rhwng 2015 a 2025 rydym wedi gweld amrywiad mewn cyfraddau hunanladdiad ym Mhowys. Dros y cyfnod o ddeng mlynedd, mae'r gyfradd achosion ar gyfartaledd wedi bod yn 13 fesul 100,000, sy'n unol â'r cyfartaleddau cenedlaethol, gydag amrywiad rhwng 9 a 19 fesul 100,000 o bobl y flwyddyn.

Er bod hyn yn unol â'r cyfartaledd cenedlaethol, mae achosion o hunanladdiad yn parhau i fod yn faes sylweddol o ffocws a phryder. Mae BIAP wedi sefydlu un pwynt mynediad a gwasanaethau ymateb cyflym i helpu i sicrhau asesiad ac ymyrraeth amserol a phriodol. Mae amgylchiadau a gofal pob achos o hunanladdiad yn cael eu hadolygu, ac mae gwasanaethau 'ôl-ymyrraeth' wedi'u sefydlu er mwyn lliniaru effaith hunanladdiad ar deuluoedd a'r risg o 'glystyru' mewn cymunedau. Bydd

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Strategaeth Hunan-niweidio ac Atal Hunanladdiad Llywodraeth Cymru yn llywio ein hadolygu a'n hailgynllunio gwasanaethau.

### Ein Hadeiladau a'n Daearyddiaeth

Er bod gwasanaethau iechyd meddwl a lles yn darparu cymorth ledled Powys, mae diffyg lleoliadau sy'n cynnig amgylchedd corfforol therapiwtig priodol ar gyfer darparu gofal a chymorth.

Yn ogystal â chyflwr yr adeiladau sydd ar gael ar hyn o bryd, mae natur arbenigol rhai gwasanaethau iechyd meddwl yn golygu bod gan dimau nifer fach o staff yn aml a gellir eu gwasgaru'n denau ar draws Powys. Gall amser teithio fod yn heriol, a gall cynnal darparu gwasanaethau fod yn anodd yn enwedig os oes swyddi gwag neu pan fydd aelodau'r tîm yn sâl.

Mae problemau tebyg hefyd ar gyfer ein wardiau cleifion mewnol yn Llandrindod, Bronllys ac Ystradgynlais yn cael eu gwasgaru ledled Powys, gan ei gwneud hi'n anoddach i staff gymryd gwaith ei gilydd pan fo salwch a gwyliau blynyddol. Mae angen hefyd wneud penderfyniadau mewn perthynas â Ward Crug yn Aberhonddu, sydd ar gau dros dro.

Mae cynllun ein wardiau iechyd meddwl aciwt yn golygu bod angen staffio ychwanegol arnom yn aml i sicrhau bod cleifion yn ddiogel yn yr amgylchedd. Gallai gwell cyfleusterau ward wella profiad cleifion yn ystod eu harhosiad yn ogystal â lleihau gofynion staffio. Yn

seiliedig ar anghenion presennol cleifion, mae angen adolygu'r trefniadau gyda gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a darparwyr eraill.

### Materion Gweithlu Iechyd Meddwl

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r wardiau iechyd meddwl ym Mhowys wedi wynebu heriau swyddi gwag staff, gyda phrosesau recriwtio wedi'u rhwystro gan y diffyg nyrsio iechyd meddwl parhaus ledled y DU. Mae hyn wedi cael ei waethygu gan bandemig COVID-19.

Yn ogystal â swyddi gwag staff, gall y cynnydd mewn aciwtedd a risg glinigol a brofir gan gleifion olygu bod angen lefelau uwch o arsylwi nyrsio, sydd fel arfer yn arwain at ofynion cynyddol o ran y gweithlu.

Mae angen hefyd sicrhau bod gan staff ein wardiau'r sgiliau i ddiwallu anghenion pobl sydd ag anableddau, gan gynnwys y rhai sydd ag anabledd dysgu. Mae hyn fel arfer yn cael ei datrys trwy ddefnyddio staffio dros dro ychwanegol. Cyrhaeddodd gwariant blynyddol yr asiantaeth ar gyfer 2023/24 £786 mil ar gyfer darpariaeth gwasanaethau Iechyd Meddwl gyda £240 mil arall o staff dros dro ychwanegol ac mae hyn wedi tyfu ymhellach yn 2024/25.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Yn ogystal â bod yn ddatrysiad drud, mae rhai astudiaethau'n<sup>5</sup> awgrymu nad yw defnyddio staff dros dro yn hyrwyddo'r gofal gorau posibl. Er bod y defnydd o staff dros dro wedi helpu i liniaru risg, gall hefyd greu risgiau sy'n gysylltiedig â pharhad gofal ac aneffeithlonrwydd cyflwyno staff newydd dro ar ôl tro i'r lleoliad clinigol.

Wrth edrych ymlaen, mae ein sefyllfa gweithlu rhagamcanedig yn y tymor hwy wedi gwella o'i gymharu â'n rhagolygon yn 2022. Mae trosiant y gweithlu wedi gostwng yn y rhan fwyaf o feysydd, a bydd rhaglenni fel Darpar Nyrsys yn ein helpu i fynd i'r afael â heriau'r gweithlu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau bod gweithredu ar y cyd yn parhau i gynnal y llwybr hwn sydd hefyd yn dibynnu ar ffactorau allanol fel argaeledd parhaus o hyfforddiant nyrsys iechyd meddwl.

Er bod yr amcanestyniadau gweithlu tymor hwy wedi gwella, mae angen i ni hefyd barhau i ddod o hyd i atebion ar unwaith i bontio ein bylchau gweithlu presennol.

---

<sup>5</sup> [Staffio nyrsys hyblyg mewn wardiau ysbytai: yr effeithiau ar gostau a deilliannau cleifion - ePrints Soton](#)



## 10. Gofal wedi'i Gynllunio

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio.

Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau cleifion allanol a gweithdrefnau meddygol a llawfeddygol yng ngwasanaethau cymunedol ac ysbytai'r GIG, yn hytrach na gwasanaethau gofal sylfaenol a drafodwyd yn y bennod ar wahân, flaenorol.

Mae rhai apwyntiadau a gweithdrefnau wedi'u cynllunio yn cael eu darparu yn lleol ym Mhowys lle mae'n ddiogel ac yn hyfyw i wneud hynny. Er enghraifft, mae ysbytai cymunedol Powys yn cynnig clinigau cleifion allanol gyda meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill. Yn Aberhonddu a Llandrindod mae gennym gyfleusterau llawdriniaethau dydd i gynnig rhai llawdriniaethau'n lleol, gyda chynlluniau i ddarparu llawdriniaethau dydd yn y Drenewydd yn y dyfodol fel rhan o Raglen Lles Gogledd Powys. Mae llawdriniaethau dydd fel arfer yn cael eu cynnal gan arbenigwyr "mewngymorth" sy'n dod i Bowys o ysbytai mewn siroedd cyfagos, yn hytrach nag arbenigwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan BIAP.

O ystyried natur Powys, bydd angen cynnal llawer o apwyntiadau a gweithdrefnau cleifion allanol mewn ysbytai mewn siroedd cyfagos lle mae ganddynt y staff a'r offer arbenigol ar gael, er mwyn rhoi gofal diogel, amserol, effeithiol, effeithlon, cyfartal a chanolbwyntio ar y person i chi. Er enghraifft, dylai rhai gweithdrefnau

ddigwydd mewn ysbytai sydd â chyfleusterau gofal critigol i'ch helpu i wella neu i ymateb i gymhlethdodau.

Rydym yn gwybod o siarad â chleifion a phreswylwyr Powys fod materion fel teithio a thrafnidiaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, amseroedd aros am driniaeth, a chyfathrebu a gwybodaeth (gan gynnwys argaeledd cofnodion cleifion wrth ymweld ag ysbytai y tu allan i Bowys) yn bryderon allweddol.

### Amseroedd Aros Gofal wedi'u Cynllunio

Amharodd pandemig COVID-19 yn ddifrifol ar wasanaethau gofal wedi'u cynllunio. Cafodd llawer o apwyntiadau a gweithdrefnau nad ydynt yn frys eu hatal. Mae hyn wedi creu ôl-groniad sylweddol o apwyntiadau a gweithdrefnau sydd wedi'u gohirio. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweld galw cynyddol yn deillio o ffactorau fel poblogaeth sy'n heneiddio.

Gyda'i gilydd mae hyn yn golygu bod rhestrau aros ac amseroedd aros wedi tyfu'n sylweddol ers 2019. Er bod camau cydgysylltiedig ar y gweill i leihau amseroedd aros, maen nhw'n parhau i fod yn annerbyniol o uchel.

Roedd dros 27,700 o drigolion Powys yn aros am lwybr Atgyfeiriad am Driniaeth ar gyfer gofal wedi'i gynllunio (ym mis Hydref 2024). Mae bron i dri chwarter (74%) o'r rhain yn aros am ofal gan ddarparwr y tu allan i Bowys. Yr arbenigeddau gyda'r aros hiraf yw Trawma ac Orthopaedeg, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



ac Wroleg. Adroddwyd bod bron i 10% o bobl ar lwybrau Atgyfeiriad am Driniaeth yn aros am dros flwyddyn.

I roi hyn mewn persbectif, yn 2023/24, roedd dros 256,100 o gysylltiadau cleifion allanol, a chyfartaledd o 985 o gleifion allanol yr wythnos ar draws pob ysbyty y mae cleifion Powys yn ymweld â nhw. Roedd ychydig dros chwarter (27%) o gysylltiadau cleifion allanol ym Mhowys.

Mae amrywiaeth o gamau gweithredu ar y gweill i wella gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio i drigolion Powys yn unol â mesurau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rydym yn comisiynu ac yn darparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio i fodloni safonau Fframwaith Perfformiad GIG Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar raglenni fel Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf a Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn effeithlon ac o ansawdd uchel. Er enghraifft, trwy roi'r gorau i'r defnydd o driniaethau nad ydynt yn ychwanegu gwerth i gleifion a buddsoddi yn y rhai sy'n gwneud hynny.
- Gan weithio gyda'n cydweithwyr Gofal Sylfaenol, rydym yn cryfhau mecanweithiau ar gyfer optimeiddio atgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technoleg a chyflwyno llwybrau amgen i leihau'r angen am ymweliad â'r ysbyty. Meysydd ffocws cychwynnol

allweddol yw orthopedig ac offthalmoleg lle mae rhai cleifion ar hyn o bryd yn profi aros hir iawn.

- Rydym yn sefydlu "pwynt cyswllt sengl" newydd fel ei bod yn haws i gleifion gael gwybod am eu hatgyfeiriad gofal wedi'u cynllunio, trefnu apwyntiadau, a lleihau canslo.
- Nod ein Gwasanaethau Aros yn Iach yw helpu pobl i gadw'n iach tra byddant yn aros, gan gynnwys cymryd camau i gynnal a gwella eu hiechyd fel eu bod yn barod ar gyfer llawdriniaeth. Er enghraifft, mae'r rhaglen 'Ychwanegu at Eich Bywyd' yn cynnig cyngor wedi'i deilwra ar gamau cadarnhaol i wella iechyd corfforol a lles meddyliol.
- Rydym yn defnyddio technoleg i wella'r ffordd rydym yn cynnig gofal wedi'i gynllunio i gleifion. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno Apiau'r GIG, "Sylw yn ôl Symptomau" a "Apwyntiadau Dilynol ar Gais y Claf" yn ogystal ag adnewyddu'n ddiweddar y gwasanaeth Mynychu Unrhyw Le, i ddarparu ymgynghoriadau rhithwir unigol a grŵp. Bydd hyn yn ein galluogi i wneud gwell defnydd o'n hadnoddau.

I'r gwrthwyneb, o ystyried y sefyllfa ariannol heriol iawn, mae ein cynlluniau ar gyfer 2025/26 hefyd yn cynnwys y bwriad i gomisiynu gofal wedi'i gynllunio gan ysbytai yn Lloegr, yn seiliedig ar dargedau amseroedd aros GIG Cymru. Nid yw hwn yn benderfyniad yr ydym wedi'i wneud yn ysgafn, ac mae'n adlewyrchu'r ffordd yr ydym yn cael ein hariannu. Rhaid i ni weithredu i fyw o fewn ein gallu, neu byddwn yn adeiladu mwy o anawsterau

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



ariannol ar gyfer y dyfodol. Rydym yn cynllunio i'r trefniadau hyn ddechrau ym mis Gorffennaf a byddwn yn rhannu mwy o fanylion ym mis Mehefin.

### Gwasanaethau Mewngymorth Eiddilwch

Fel y soniwyd uchod, mae gan BIAP ddibyniaeth fawr ar dimau o sefydliadau cyfagos sy'n ymweld â'n hysbytai i ddarparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio. Gelwir y rhain yn "gwasanaethau mewngymorth".

Ar hyn o bryd mae 18 arbenigedd yn cael eu darparu yn ysbytai Powys gan dimau ymgynghorol o chwe Bwrdd Iechyd Cymru a thair Ymddiriedolaeth GIG Lloegr. Weithiau pan fydd y sefydliadau sy'n cyflogi'r timau hyn yn profi eu pwysau eu hunain, gall fod yn anoddach iddynt ryddhau ymgynghorwyr a staff arbenigol eraill i ymweld â Phowys.

Gall hyn wneud darparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio yma ym Mhowys yn fwy eiddil. Mae hefyd yn effeithio ar ein gallu i ehangu'r ystod o wasanaethau gofal wedi'u cynllunio a ddarparwn yn y sir, gan leihau'r angen i deithio i ysbytai cyfagos.

Mae angen i ni adolygu gwasanaethau presennol a nodi llwybrau amgen a modelau'r gweithlu i wella ansawdd a lleihau bregusrwydd gwasanaethau.

### Comisiynu

Rydym yn gweithio'n agos gyda byrddau iechyd cyfagos yng Nghymru ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Ond

oherwydd bod gan y sefydliadau hyn ddalgylch mawr y tu allan i Bowys, weithiau efallai y bydd angen iddynt wneud newidiadau i'w gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cynyddu'r pellter a'r teithio i drigolion Powys gael mynediad at ofal wedi'i gynllunio. Er enghraifft, gall fod yn fwy diogel ac yn fwy effeithiol iddynt ganolbwyntio gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio ar un o'u safleoedd ysbyty yn hytrach nag ar draws sawl safle. Gall hyn olygu bod angen i ni ymateb a gweithredu – weithiau ar fyr rybudd – i newidiadau maen nhw'n eu gwneud sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol.

Enghraifft arall o'r heriau y gallwn eu hwynebu wrth gomisiynu gwasanaethau yw'r amseroedd aros gwahanol y mae cleifion mewn gwahanol rannau o Bowys yn eu profi. Yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw ym Mhowys, fel arfer cewch eich cyfeirio at yr ysbyty cyfagos agosaf sy'n cynnig yr arbenigedd clinigol sydd ei angen arnoch. Ond gall amseroedd aros amrywio'n sylweddol rhwng ysbytai a rhwng arbenigeddau.

### Effaith ein Hadeiladau a'n Seilwaith ar Wasanaethau Gofal wedi'u Cynllunio

Mae ystâd BIAP yn wynebu sawl her sy'n ei gwneud hi'n anodd darparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio modern mor effeithiol ac effeithlon ag y byddem yn dymuno. Dyluniwyd llawer o'r adeiladau sy'n ffurfio ystâd BIAP ar gyfer modelau gofal y gorffennol, ac nid ar gyfer anghenion y dyfodol. Er enghraifft, efallai na fyddant yn

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



darparu amgylchedd addas ar gyfer gwasanaethau integredig un stop cyfleus lle rydych chi'n cael eich gweld a'ch trin mewn un apwyntiad. Nid yw rhai rhannau o'n hysbytai yn cydymffurfio'n llawn â safonau modern ac mae ganddynt ôl-groniad o broblemau cynnal a chadw. Gall hyn gyfyngu ar ein gallu i gyflwyno a chynnig y triniaethau a'r technolegau diweddaraf.

Yn ogystal, gall y seilwaith digidol yn ein hadeiladau – ac yn ehangach ledled y sir yng nghartrefi pobl – effeithio ar ein gallu i gefnogi apwyntiadau rhithwir, rhannu gwybodaeth am gleifion ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd, ac i gael mynediad at wybodaeth a chynngor o ansawdd uchel i gefnogi hunan-ofal ac aros yn dda.

### Ein Gweithlu Gofal Cynlluniedig

Yn yr un modd â llawer o feysydd eraill o weithlu'r GIG, gallwn wynebu heriau wrth recriwtio staff arbenigol gyda'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i ddarparu gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio dibynadwy a chyson.

Fel y soniwyd uchod, mae llawer o'n gwasanaethau hefyd yn dibynnu ar 'mewngymorth', gyda staff o sefydliadau'r GIG cyfagos yn ymweld ag ysbytai Powys i ddarparu apwyntiadau a gweithdrefnau. Gall argaeledd yr aelodau staff hyn gael ei effeithio gan lawer o wahanol ffactorau – er enghraifft, os oes angen eu help ar eu sefydliad cyflogi i ymateb i bwysau brys.

Er enghraifft, gall ein cleifion elwa o unigolyn sydd wedi datblygu sgiliau arbenigol mewn maes allweddol, gan eu

galluogi i ddarparu gwasanaethau ychwanegol yn y sir. Efallai mai nhw yw'r unig aelod o staff yn y sir sydd â'r sgiliau hyn. Pan fyddant yn symud i rôl newydd neu'n ymddeol, gall fod yn heriol i ni amnewid eu sgiliau er mwyn cynnal darpariaeth y gwasanaeth maen nhw wedi bod yn ei gynnig.

Mae cyfleoedd i ystyried atebion amgen fel meddygon teulu gyda rolau estynedig ac ymarferwyr clinigol uwch i'n helpu i gynnal ac ehangu gwasanaethau.



## 11. Diagnosteg a Delweddu

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwasanaethau diagnostig a delweddu.

Mae **diagnosteg** yn cyfeirio at y broses o adnabod clefyd neu gyflwr o'i arwyddion a'i symptomau. Mae'n cynnwys dulliau ac offer amrywiol i bennu natur ac achos mater iechyd. Gall hyn gynnwys:

- **Archwiliadau meddygol:** Archwiliadau corfforol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol.
- **Profion labordy:** Profion gwaed, profion wrin, a dadansoddiadau eraill.
- **Hanes meddygol:** Adolygu hanes iechyd claf a hanes teuluol.
- **Profion arbenigol:** Megis biopsïau neu brofion genetig.

Mae **delweddu** yn y maes meddygol yn cyfeirio at dechnegau a ddefnyddir i greu delweddau gweledol o'r tu mewn i gorff ar gyfer dadansoddiad clinigol ac ymyrraeth feddygol. Mae technegau delweddu cyffredin yn cynnwys:

- **Pelydr-X:** Defnyddio ymbelydredd i weld esgyrn a meinweoedd penodol.
- **Uwchsain:** Defnydd tonnau sain i greu delweddau o organau a strwythurau y tu mewn i'r corff.
- **MRI** (sef Delweddu Cyseiniant Magnetig): Defnyddio meysydd magnetig a thonnau radio i gynhyrchu delweddau manwl o organau a meinweoedd.

- **Sganiau CT** (Tomograffeg Gyfrifiadurol): Cyfuno delweddau pelydr-X a gymerwyd o wahanol onglau i greu delweddau trawsdoriadol o esgyrn a meinweoedd meddal.
- **Sganiau PET** (Tomograffeg Allyriadau Positron): Defnydd sylweddau ymbelydrol i ddelweddu a mesur newidiadau mewn prosesau metabolig

Lle bo hynny'n bosibl, rydym yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y sir. Fodd bynnag, ni ellir darparu rhai technolegau a thechnegau yn ddiogel ac yn hyfyw ym Mhowys. Er enghraifft, gall yr offer delweddu fod yn ddrud iawn ac mae angen iddynt wasanaethu dalgylch llawer mwy na phoblogaeth Powys. Efallai y bydd angen timau cymorth arbenigol iawn i gynnal a chadw'r offer i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol. Neu efallai y bydd angen timau arbenigol iawn sydd ar gael 24 awr y dydd i dynnu lluniau a'u dadansoddi – felly o ystyried ein poblogaeth wledig fach ni fyddai'n ymarferol cynnig y gwasanaeth ym Mhowys.

Rydym yn gwybod o siarad â chleifion bod yna werthfawrogiad o'r gwasanaethau diagnosteg a delweddu a ddarperir yn y sir. Yn yr un modd â gwasanaethau eraill, mae pryder am y pellter i deithio ar gyfer rhai profion a delweddu na ellir eu darparu o fewn y sir, a rhywfaint o rwystredigaeth ymhlith cleifion a thrigolion na ellir darparu gwasanaethau o'r fath ym Mhowys. Mae cleifion hefyd yn tynnu sylw at broblemau gyda

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



throsoglwyddo canlyniadau rhwng sefydliadau, yn enwedig gan gynnwys trawsffiniol â Lloegr.

Mae'r angen am drawsnewid gwasanaethau diagnostig ledled y DU wedi'i nodi'n glir. Er enghraifft, tynnodd adolygiad annibynnol o wasanaethau diagnostig yn Lloegr<sup>6</sup> sylw at y ffaith bod pandemig Covid-19 wedi gwaethygu heriau sy'n bodoli eisoes yn deillio o alw cynyddol, cynnydd mewn ceisiadau am brofion, ac ehangu arwyddion clinigol ar gyfer technolegau presennol. Mae'n nodi'r angen i ehangu capasiti diagnostig yn sylweddol i hwyluso adferiad o'r pandemig ac ymateb i'r galw cynyddol.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae ystod o welliannau'n digwydd. Er enghraifft, mae rhaglen amnewid pelydr-X ar y gweill i osod offer pelydr-X digidol newydd mewn pum lleoliad ym Mhowys. Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, bydd y rhaglen £1.7m hon yn cynnig delweddau cyflymach a chliriach, gan helpu i wella diagnosteg i bobl Powys. Yn ogystal â darparu canlyniadau cyflymach a diagnosisu mwy cywir, bydd hefyd yn helpu i leihau amseroedd aros ar gyfer pelydr-X a fydd yn ei dro yn gwella mynediad at driniaeth.

## Effaith ein Hadeiladau a'n Seilwaith ar Wasanaethau Diagnostig

Mae'r seilwaith presennol ym Mhowys, adeiledig a digidol, wedi dyddio ac mae'n creu heriau a rhwystrau i gyflwyno technolegau diagnostig a delweddu newydd a modelau gofal. Mae hyn yn cyflwyno anawsterau ar gyfer ailgynllunio a gweithredu diagnosteg gymunedol newydd sy'n ofynnol i asesu a rheoli anghenion cleifion yn fwy lleol.

## Amseroedd Aros Diagnostig

Fel gyda gwasanaethau gofal wedi'u cynllunio, amharodd pandemig COVID-19 yn ddifrifol ar wasanaethau diagnosteg a delweddu, gan greu ôl-groniad nad yw wedi'i datrys yn llawn eto, gan gyfrannu at yr oedi presennol.

Tynnodd Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Diagnostig ar gyfer GIG Lloegr (2020) sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â'r galw cynyddol am ddelweddu, gan ragori ar y capasiti presennol ar draws pob math o ddelweddu. Mae hyn yn arwain at oedi mewn llwybrau gofal a all gyfaddawdu ansawdd a chanlyniadau gofal cleifion.

Ym mis Rhagfyr 2024, adroddwyd bod dros 3,300 o lwybrau cleifion yn aros ym Mhowys am ymyrraeth ar gyfer naill ai gwasanaeth Diagnostig neu Weithwyr

<sup>6</sup> Ffynhonnell: [Diagnostics: Recovery and Renewal – Report of the Independent Review of Diagnostic Services for NHS England – October 2020](#)

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Mae oedi yn y llwybrau hyn yn effeithio ar allu ehangach BIAP i gyrraedd targedau gofal wedi'u cynllunio gan Lywodraeth Cymru. Roedd toriadau llwybr y targed 8 wythnos ar gyfer diagnosteg yn gyfyngedig ond yn uwch na'r targed a ragwelwyd gan BIAP o sero ar gyfer y cyfnod hwn, gyda 73 yn aros am ecocardiogram, 3 yn aros am endosgopi ac 8 arall yn aros am uwchsain anobstetreg. Mae mynediad ac ymyrraeth gwasanaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn parhau i fod yn gyffredinol gadarn yn erbyn eu targed 14 wythnos gyda thoriadau cyfyngedig iawn yn ystod 2024/25.

Mae'r ffigurau uchod yn cyfeirio at drigolion Powys sy'n aros am brofion a ddarperir gan wasanaethau BIAP ac nid ydynt yn cynnwys trigolion Powys sy'n aros am brofion y tu allan i'r sir, er enghraifft lle nad yw'r diagnostig ar gael ym Mhowys a/neu'n cael ei gynnal fel rhan o'u llwybr gofal am wasanaethau a gomisiynwyd. Mae amseroedd aros ar gyfer diagnosteg darparwr BIAP ac mewn gwasanaethau comisiynu yn destun monitro perfformiad gweithredol a pharhaus.

### Hwyluswyr

Gallai gweithredu technegau mwy newydd mewn diagnosteg ac adolygu cleifion hefyd wella canlyniadau a phrofiad cleifion. Gallai gwelliannau i seilwaith digidol - o fewn BIAP ac yn ehangach ledled y sir - gynyddu cyfleoedd ar gyfer mynediad o bell a thelefeddygaeth, gan alluogi ymgynghoriadau a diagnosis o bell, a all fod

yn arbennig o fuddiol mewn ardaloedd gwledig a chymunedau sy'n fwy anghysbell o wasanaethau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.

Mae technolegau deallusrwydd artiffisial (DA) a gymhwysir i ddelweddu, fel sgrinio canser, ymhlith y defnyddiau mwyaf datblygedig o DA mewn gofal iechyd. Mae ganddynt y potensial i drawsnewid atal, canfod yn gynnar, a thrin clefydau, gan helpu i ddarparu gwell gofal a mynediad cyflymach at driniaeth.

### Ein Gweithlu Diagnostig a Delweddu

Ar draws y DU, mae problemau capasiti system gyfan yn cael eu gwaethygu gan anawsterau wrth recriwtio i swyddi gwag radiolegwyr ymgynghorol, radiograffydd a sonograffydd. Mae daearyddiaeth hefyd yn effeithio ar anawsterau recriwtio, ac mae ein poblogaeth fach ac ar wasgar wedi'i waethygu gan y pellter o ganolfannau poblogaeth mawr yn gallu effeithio ar recriwtio lleol.

Mae rhagamcanion diweddar y gweithlu a gynhaliwyd yn 2024 yn dangos dirywiad sylweddol a darlun sy'n gwaethygu ar gyfer y gweithlu diagnosteg o'i gymharu ag amcanestyniadau 2022. Er bod cynnydd diweddar wedi bod yn y sefydliadau ar gyfer Radiograffwyr wedi'u cyllidebu, a oedd er mwyn galluogi mwy o weithgarwch diagnostig clinigol ym Mhowys, mae recriwtio a chyflenwi'r gweithlu wedi parhau i fod yn heriol, gyda swyddi gwag yn cynyddu. Rydym wedi gallu buddsoddi mewn swyddi newydd a datblygu, mewn meysydd fel

## **Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd**

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



radiograffeg, profion pwynt gofal a ffisioleg anadlol, i helpu i dyfu gweithlu'r dyfodol.

Bydd cynllun gweithlu cadarn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwytnwch sefydliadol, gan dynnu ar y dysgu a gafwyd o'r ymateb i'r pandemig. Mae angen archwilio cyfleoedd i'r gweithlu gyflwyno datblygiadau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ymarferol. Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â heriau recriwtio trwy ddefnyddio mentrau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn helpu i ail-lunio'r gweithlu ar gyfer diagnosteg.



## 12. Gwasanaethau Menywod a Phlant

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer gwasanaethau menywod a phlant.

Mae BIAP yn darparu ac yn comisiynu gwasanaethau menywod a phlant mewn gofal sylfaenol a chymunedol ym Mhowys. Ond mae natur wledig a gwasgarog Powys yn golygu na ellir darparu llawer mwy o wasanaethau arbenigol yn ddiogel ac yn gynaliadwy yn y sir, ac rydym yn comisiynu'r rhain gan ddarparwyr y tu allan i'r sir.

Mae enghreifftiau o wasanaethau menywod a ddarperir yn y sir yn cynnwys gwasanaethau mamolaeth dan arweiniad bydwragedd, iechyd meddwl amenedigol, clinigau arbenigol nyrsio clinigol endometriosis, iechyd pelfis, atal cenhedlu ac iechyd rhywiol, a rhai gwasanaethau cleifion allanol mewngymorth. Mae gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir yn cynnwys gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ymgynghorol, gwasanaethau llawfeddygol a chleifion mewnol.

Mae enghreifftiau o wasanaethau plant a ddarperir yn y sir yn cynnwys nyrsio plant cymunedol, ymweliadau iechyd (gan gynnwys Dechrau'n Deg), nyrsio ysgol, offthalmoleg bediatreg, awdioleg, diogelu, anabledau dysgu, gwasanaethau cleifion allanol/pediatregydd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (sef

CAMHS), gwasanaethau niwroddatblygu plant, therapïau, gofal iechyd parhaus (e.e. pecynnau gofal yn y cartref i gefnogi plant sydd ag anghenion cymhleth iawn), cludadwyedd (therapi chwarae), orthoteg, podiatreg a gwasanaethau cadair olwyn mewngymorth. Mae enghreifftiau o wasanaethau plant y tu allan i'r sir yn cynnwys gofal brys, gofal cleifion mewnol a gwasanaethau llawfeddygol.

### Ein Hadeiladau a'n Daearyddiaeth

Mae cefn gwlad Powys a'i sylfaen boblogaeth yn golygu y gall darparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy i fenywod a phlant yn y sir fod yn heriol.

O ganlyniad, mae angen cael mynediad at lawer o wasanaethau menywod a phlant y tu allan i'r sir – er enghraifft, gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ymgynghorol.

Mae'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn y sir yn aml wedi'u gwasgaru'n denau ar draws nifer o adeiladau sydd wedi dyddio, ac nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer gofal iechyd modern, ac mae angen newid sylweddol i ddiwallu anghenion gwasanaeth yn y dyfodol. Mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn ac i ailgynllunio'r ffordd y darperir gwasanaethau.



## Heriau Allweddol i Wasanaethau Menywod ym Mhowys

Mae Powys yn cynnig gofal mamolaeth dan arweiniad bydwragedd, gan gynnwys gofal cynenedigol, yn ystod genedigaeth ac ôl-enedigol, gan gysylltu â gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr, ymwelwyr iechyd, gofal sylfaenol, pediatreg gymunedol, gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a gofal cymdeithasol. Cefnogir genedigaethau gartref ac o fewn canolfannau geni BIAP. Lle mae menywod angen neu ddewis genedigaeth dan arweiniad ymgynghorol, mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyrchu y tu allan i'r sir mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos.

Dros y 5 mlynedd diwethaf, ar gyfartaledd mae 213 o fenywod y flwyddyn yn geni eu babanod ym Mhowys, naill ai gartref neu mewn uned enedigaeth bwrpasol. Mae hyn yn cyfrif am 29% o holl enedigaethau ym Mhowys. Gyda chyfraddau geni lleihau, a'r mwyafrif o ofal arbenigol yn cael ei gynnig y tu allan i'r sir mewn unedau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, mae angen adolygu'r ddarpariaeth yn y dyfodol o unedau geni bydwreigiaeth ledled Powys i sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel, diogel a chynaliadwy.

Mae angen i fenywod deithio allan o'r sir i gael mynediad i'r mwyafrif o wasanaethau gofal iechyd menywod, a gall

amseroedd aros fod yn hir. Gall hyn gynyddu'r risg y gall materion sy'n gysylltiedig ag iechyd fynd heb eu diagnosio neu heb eu trin am gyfnodau hirach, gan arwain at ganlyniadau iechyd gwael a chyfraddau marwolaethau uwch.

Mae cyfleoedd i edrych ar lwybrau amgen mewn lleoliad sylfaenol a chymunedol. Mae hyn yn cynnwys archwilio opsiynau ar gyfer Hyb Iechyd Menywod ar gyfer ein cyddestun gwledig, sy'n cyd-fynd â Chynllun Iechyd Menywod Cymru diweddar. Bydd mabwysiadu dull 'gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth' ar draws llwybr menywod yn gwella ansawdd a mynediad trwy wasanaethau sylfaenol a chymunedol lleol ac yn lleihau gwariant comisiynu y tu allan i Bowys.

## Gwasanaethau Niwroddatblygiad Plant

Mae nifer o heriau allweddol i wasanaethau plant, gan gynnwys Gwasanaethau Niwroddatblygu Plant sy'n profi pwysau a bregusrwydd sylweddol. Mae lefelau cynyddol o alw yn cyfrannu at her gynyddol a sylweddol sy'n ymwneud â rhestrau aros ac oedi i gleifion. Mae'n dod yn fwyfwy amlwg nad yw'r ffyrdd presennol o weithio yn gynaliadwy. Tynnodd adolygiad a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>7</sup> sylw at y ffaith bod y galw am

<sup>7</sup> Ffynhonnell: [Adolygiad o alw, capasiti a dyluniad gwasanaethau niwroddatblygiadol: Adroddiad Llawn](#) (Llywodraeth Cymru, 2022)

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



asesiadau diagnostig Niwroddatblygu wedi rhagori ar gapasiti y gwasanaethau sydd ar gael.

Yn ystod 2024/25 rydym wedi gweithio gyda Chyngor Sir Powys, y sector gwirfoddol, a gyda phlant a theuluoedd sy'n defnyddio gwasanaethau Niwroddatblygu, i wneud gwelliannau. Mae'r gwasanaeth hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn 2025/26 gan ein bod yn cydnabod bod y galw ar y gwasanaeth yn debygol o barhau i gynyddu.

### Cynnydd o ran Gordewdra yn ystod Plentyndod

Gordewdra mewn plant a phobl ifanc yw'r clefyd mwyaf cyffredin, costus a'r mwyaf ataliadwy yn ein hoes. Mae asesu ac ymateb effeithiol i'r ysgogwyr a'r risgiau ar gyfer mynd dros bwysau ar y cam cynharaf o fywyd yn cefnogi model gofal cost-effeithiol a all newid canlyniad cadarnhaol i blant a phobl ifanc Powys. Gall hyn hefyd leihau baich ariannol cyflyrau cronig eilaidd fel clefyd y galon, strôc a rhai canserau.

Mae 24.1% o blant ym Mhowys yn cael eu categorio fel 'dros bwysau' neu'n 'ordew'. Mae'r rhesymau y tu ôl i ordewdra plant yn gymhleth. Maent yn cynnwys effaith byw mewn tlodi, ymddygiadau eisteddog sy'n gysylltiedig ag effaith datblygiadau technolegol ar fywyd modern, dylanwad a ffordd o fyw ffrindiau a theulu, a hyrwyddo a bwyta bwydydd afiach i blant a phobl ifanc.

Mae gwaith cydgysylltiedig ar y gweill ar draws partneriaid i fynd i'r afael ag achosion gordewdra plant. O ran darpariaeth gwasanaethau iechyd, mae bylchau yn y gwasanaeth rheoli pwysau ym Mhowys ar hyn o bryd, ac mae angen mwy o waith i gyflawni llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru.

### Anghenion Iechyd Meddwl Plant

Yn dilyn pandemig COVID-19, bu cynnydd sylweddol mewn achosion a gofnodwyd o broblemau iechyd meddwl i'r boblogaeth iau. Ym Mhowys bu cynnydd o 49% yn y galw am Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed dros y 4 blynedd diwethaf, ac mae cymhlethdod yr angen hefyd yn dwysáu.

Rhwng 2019/20 a 2023/24 cynyddodd atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer gorbryder 63% a chynyddodd atgyfeiriadau a dderbyniwyd ar gyfer plant a phobl ifanc a oedd yn hunanladdol o 7 i 86. Roedd cynnydd o 64% mewn atgyfeiriadau newydd ar gyfer cwnsela rhwng 2020 ac ar ôl y pandemig.

Mae data Meincnodi'r GIG o 2023/24 yn dangos bod atgyfeiriadau a dderbyniwyd fesul 100,000 o'r boblogaeth 8% yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda llawer mwy o gleifion ar y llwyth achosion (4,429) fesul 100,000 o'r boblogaeth na chyfartaledd Cymru (1,989). Roedd y cysylltiadau a ddarparwyd fesul 100,000 hefyd yn uwch

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



na chyfartaledd Cymru; 53,199 a 32,701 yn y drefn honno<sup>8</sup>.

### Gofal Iechyd Parhaus

Mae gan nifer fach o blant a phobl ifanc anghenion iechyd cymhleth iawn. Gall y rhain fod yn ganlyniad i gyflyrau cynhenid, cyflyrau hirdymor neu sy'n cyfyngu ar fywyd neu sy'n peryglu bywyd, anabledd, neu ôl-effeithiau salwch neu anaf difrifol. Efallai y bydd ganddynt ddibyniaeth ar dechnoleg sy'n gofyn am fewnbwn nyrsio. Bydd gan rai plant a phobl ifanc anghenion iechyd meddwl cymhleth neu anabledd dysgu sy'n gofyn am fewnbwn therapiwtig arbenigol neu ddarpariaeth mewn lleoliad.

Mae cyfleoedd i edrych ar ddarpariaeth amgen i wneud y gorau o'r gofal i'r plant a'r bobl ifanc hyn.

### Heriau Gweithlu Menywod a Phlant

Ym Mhowys bu heriau gweithlu hirsefydlog o fewn gwasanaethau plant, sydd wedi cael eu gwaethygu ymhellach gan y pandemig, gyda lefelau cynyddol o alw, a chymhlethdod anghenion.

Yn fwy cadarnhaol, yn ddiweddar mae ffurf a chyflenwad y gweithlu ar gyfer gwasanaeth menywod a phlant wedi newid wrth i recriwtio wella ym mhob maes, ac eithrio'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, ac mae

rhagamcanion yn y dyfodol yn gyffredinol yn dangos gwelliant. Mae cyflawni'r rhagamcanion hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys bod y cyflenwad a ragwelir (e.e. nyrsys mewn hyfforddiant) yn cael ei gynnal.

Fel mewn ardaloedd gweithlu eraill, mae daearyddiaeth Powys yn golygu y gall amseroedd teithio a phellteroedd teithio fod yn uchel – yn enwedig ar gyfer timau arbenigol sy'n gweithio gyda llwythi achosion bach. Mae timau bach hefyd yn wynebu bregusrwydd arbennig oherwydd swyddi gwag neu salwch.

Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Iechyd Menywod Llywodraeth Cymru mae cyfleoedd wedi'u nodi i ddatblygu model gweithlu mwy cynaliadwy. Mae angen rhagor o waith i ymgysylltu â phartneriaid comisiynu a chydweithwyr gofal sylfaenol i fynd i'r afael â'r cyfleoedd ar gyfer datblygu a darparu gwasanaethau.

<sup>8</sup> Ffynhonnell: [Rhwydwaith Meincnodi'r GIG](#)

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys




### 13. Rhannu eich Barn

Rydym yn awyddus i glywed eich barn erbyn 25 Mai 2025 ar y canlynol:

- Cryfderau: beth sy'n dda am wasanaethau iechyd ym Mhowys?
- Gwendidau: beth sy'n wael neu ddim yn gweithio mor dda?
- Cyfleoedd: pa syniadau a allai fod gennych a allai ein helpu i wella?
- Bygythiadau: beth allai fod yn rhwystr a'n hatal rhag gwneud y gwelliannau sydd eu hangen arnom?
- Beth sydd angen newid?

Os yn bosibl, rydym yn eich annog i rannu eich barn drwy'r arolwg ar-lein ar ein gwefan Gwella Gyda'n Gilydd.

**[haveyoursaypowys.wales/better-together-spring25](https://haveyoursaypowys.wales/better-together-spring25)**



Mae yna lawer o ffyrdd eraill o gymryd rhan os na allwch ymateb ar-lein.

- Ysgrifennu atom: Gwella Gyda'n Gilydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Tŷ Glasbury, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Powys LD3 0LY
- E-bostiwrch ni: [powys.engagement@wales.nhs.uk](mailto:powys.engagement@wales.nhs.uk)
- Ffoniwch ein rhif ffôn ateb ymgysylltu ar 01874 442917 (gallwch ofyn am gopi printiedig o'n dogfen Achos am Newid a'n harolwg).

Mae ein gwefan Gwella Gyda'n Gilydd hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i ddarganfod mwy a chymryd rhan:

- Darllen ein dogfen "Achos dros Newid" gryno
- Dod o hyd i wybodaeth mewn gwahanol fformatau gan gynnwys Hawdd ei Ddarllen
- Gwyllo ein fideo "Achos dros Newid" byr

Dyma gam cyntaf sgwrs barhaus yn ystod 2025 a thu hwnt. Bydd yn llunio dyfodol gwasanaethau iechyd diogel ac o ansawdd i Bowys. Bydd llawer mwy o ffyrdd o gymryd rhan dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys sgysiau am wasanaethau cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion yn ddiweddarach haf eleni.

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



# 14. Geirfa a Chyfeiriadau

Rydym yn cydnabod bod y ddogfen hon yn cynnwys termau technegol. Mae geirfa o dermau iechyd yn y GIG yng Nghymru ar gael [ar wefan Cydffederasiwn GIG Cymru](#) ac mae rhai termau allweddol wedi'u diffinio isod:

|  |  |
|--|--|
| <a href="#">ACEHI</a>                                | Mae ACEHI (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn derm a ddefnyddir mewn daearyddiaeth ystadegol. Mae'n ardal ddaearyddol sy'n cynnwys tua 1500 o bobl fel arfer. Mae 79 ACEHI ym Mhowys.   |
| <a href="#">Adran Achosion Brys</a>                  | Gwasanaethau dan arweiniad ymgynghorwyr i ddarparu cyfleusterau gofal a dadebru uniongyrchol 24 awr ar gyfer anafiadau a salwch sy'n bygwth bywyd ac aelodau. Oherwydd natur wledig a phoblogaeth wasgarog Powys, nid yw'n bosibl darparu gwasanaethau Adran Achosion Brys yn y sir. |
| <a href="#">Asesiad o Anghenion Fferyllol Powys</a>  | Asesiad manwl o argaeledd gwasanaethau, anghenion a bylchau fferyllfa ym Mhowys.   |
| <a href="#">Asesiadau Anghenion Poblogaeth Powys</a> | Asesiad manwl o anghenion gofal a chymorth pobl Powys.   |
| <a href="#">Asesiad Lles Powys</a>                   | Asesiad manwl o statws llesiant ac anghenion pobl Powys.   |
| <a href="#">Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys</a>   | Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2015 i ddod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd i asesu a mynd i'r afael ag anghenion lles eu hardaloedd.   |
| <a href="#">Bwrdd Iechyd Addysgu Powys</a>           | Bwrdd Iechyd Lleol statudol Powys.   |
| <a href="#">Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys</a> | Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dod â byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector ynghyd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn eu hardal.  |
| Comisiynu  | Mae comisiynu yn derm a ddefnyddir ar gyfer prynu gwasanaethau'r GIG i ddiwallu anghenion iechyd poblogaeth leol. Mae BIAP yn darparu rhai   |

|  |  |
|--|--|
|  | gwasanaethau yn uniongyrchol lle mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny yn ein cyd-destun gwledig, ac rydym yn comisiynu gwasanaethau aciwt ac arbenigol gan ysbytai y tu allan i'r sir.   |
| <a href="#">Cydbwyllgor Comisiynu</a>                              | Cydbwyllgor Comisiynu GIG Cymru, cydbwyllgor statudol o'r byrddau iechyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am gomisiynu ystod o wasanaethau ar lefel genedlaethol. Dyma'r corff olynedd i Bwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (PGIAC) a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (PGAB). |
| <a href="#">Cydweithredfa Gofal Diogel</a>                         | Mae'r Cydweithredfa Gofal Diogel yn dwyn ynghyd fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau ledled Cymru i gyflwynu prosiectau gwella a fydd yn gwella diogelwch cleifion ledled y GIG yng Nghymru.  |
| Cyfalaf Dewisol  | Cyfalaf dewisol yw'r hyn a ddyrennir yn uniongyrchol i sefydliadau'r GIG ar gyfer rhwymedigaethau blaenoriaeth fel iechyd a diogelwch a'r Cod Tân, cynnal a chadw ffabrig yr ystâd, ac ailosod offer yn amserol.<br>Equipment.   |
| <a href="#">Cyngor Sir Powys</a>                                   | Yr awdurdod lleol statudol ar gyfer Powys.   |
| <a href="#">Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys</a>               | Cyngor Gwirfoddol Sir Powys, sy'n cefnogi'r trydydd sector ar draws y sir.   |
| <a href="#">Cymru Iachach</a>                                      | Cynllun Llywodraeth Cymru am ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.   |
| <a href="#">Cynllun Iechyd Menywod Cymru</a>                       | Gweledigaeth 10 mlynedd i wella gwasanaethau gofal iechyd i fenywod ledled Cymru.  |
| <a href="#">Cynlluniau Integredig a Chynlluniau Blynyddol BIAP</a> | Cynlluniau a blaenoriaethau tymor byr a chanolig y bwrdd iechyd ar gyfer gwella iechyd a datblygu gwasanaethau iechyd.   |
| <a href="#">Datganiadau Ansawdd</a>                                | Canllawiau cenedlaethol manwl sy'n disgrifio sut y dylai gwasanaethau o ansawdd da edrych. Mae datganiadau ansawdd wedi'u cyhoeddi ar gyfer ystod eang o gyflyrau e.e. diabetes, clefyd yr arennau, strôc.   |

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



|   |  |
|---|--|
| <a href="#">Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol</a>       | Deddfwriaeth yng Nghymru sy'n anelu at sicrhau ein bod ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas, a'n diwylliant.   |
| <a href="#">Dyletswydd Ansawdd</a>                          | Mae gan Fyrddau Iechyd yng Nghymru Dyletswydd Ansawdd statudol. Mae hyn yn gofyn i Weinidogion Cymru a'r GIG feddwl am sut y bydd eu penderfyniadau yn gwella gofal iechyd yn y dyfodol.   |
| <a href="#">Eiddilwch</a>                                   | Mae eiddilwch yn gyflwr hirdymor. Mae'n disgrifio cyflwr iechyd lle mae systemau'r corff yn colli eu gwytnwch biolegol, corfforol a meddyliol yn raddol. Mae'n gyffredin yn gysylltiedig â'r broses heneiddio ac felly mae'n cael ei brofi yn bennaf gan bobl hŷn, er nad yw pob person hŷn yn byw gydag eiddilwch. Fodd bynnag, wrth i'r boblogaeth barhau i heneiddio, bydd nifer y bobl sy'n byw gydag eiddilwch, neu sydd mewn perygl o ddatblygu eiddilwch, yn cynyddu. |
| <a href="#">Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach</a>        | Gweledigaeth genedlaethol ar gyfer sut y gall gwasanaethau fferylliaeth gyfrannu at Gymru Iachach.   |
| <a href="#">Fframwaith Clinigol Cenedlaethol GIG Cymru</a>  | Canllawiau cenedlaethol craidd ar sut i gynllunio a darparu gwasanaethau clinigol lleol a chenedlaethol.   |
| <a href="#">Fframwaith Cynllunio GIG Cymru</a>              | Canllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru i'r GIG i nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu penodol ar gyfer byrddau iechyd a chyrff eraill GIG Cymru i ddarparu gwasanaethau a gwella iechyd.  |
| <a href="#">GIRFT (sef Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf)</a> | Nod "Cael Pethau'n Iawn y Tro Cyntaf" yw gwella triniaeth a gofal cleifion trwy adolygiadau dan arweiniad clinigol, defnydd data, profiad cleifion, a gwybodaeth glinigol arbenigol.   |
| Gofal Acíwt   | Mae gofal aciwt fel arfer yn cyfeirio at y driniaeth feddygol a llawfeddygol a ddarperir gan Ysbyty Cyffredinol Dosbarth neu ysbyty mawr arall. Mae trigolion Powys yn cael mynediad at ofal aciwt mewn  |

|  |  |
|--|--|
|  | ysbytai cyfagos y tu allan i'r sir oherwydd natur wledig a phan boblog Powys.  |
| Gofal Cleifion Mewnol                    | Derbyn triniaeth feddygol neu ofal nyrsio ac aros dros nos (neu hirach) mewn ysbyty.   |
| Gofal Iechyd Parhaus                     | Gofal iechyd parhaus y GIG yw gofal iechyd a chymdeithasol y tu allan i'r ysbyty sy'n cael ei drefnu a'i ariannu gan y GIG. Mae ar gael i bobl sydd angen gofal iechyd parhaus a lle maent wedi cael eu hasesu fel rhai sydd ag angen iechyd sylfaenol.  |
| Gofal Lliniarol                          | Mae gofal lliniarol yn ddull amlddisgyblaethol o ofal meddygol a nyrsio arbenigol i bobl â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd. Fel arfer, mae'n canolbwyntio ar ddarparu rhyddhad o'r symptomau, poen, a straen corfforol a meddyliol diagnosis terfynol.  |
| <a href="#">Gofal Sylfaenol</a>          | Gwasanaethau gofal sylfaenol yw'r pwynt cyswllt cyntaf yn y system gofal iechyd, gan weithredu fel 'drws ffrynt' y GIG. Mae gofal sylfaenol yn cynnwys meddygon teulu, fferylliaeth gymunedol, gwasanaethau deintyddol ac optometreg (iechyd llygaid).   |
| Gofal wedi'i Gynllunio / Gofal Dewisol   | Gofal wedi'i gynllunio yw gofal sydd wedi'i gynllunio, wedi'i drefnu o flaen llaw, a gofal nad yw'n frys, gan gynnwys llawdriniaethau sydd wedi'u trefnu. Fel arfer, mae'n cyfeirio at ofal a ddarperir gan arbenigwyr meddygol a llawfeddygol mewn ysbyty neu leoliad gofal eilaidd arall – gan gynnwys theatrau ym Mhowys. Gellir ei adnabod hefyd fel Gofal Dewisol. Mae enghreifftiau'n cynnwys amnewid pen-glin, arthrogopi a llawdriniaethau cataract. |
| <a href="#">Gwelliant Cymru</a>          | Gwelliant Cymru yw'r gwasanaeth gwella ar gyfer GIG Cymru.   |
| <a href="#">Gwerth mewn Gofal Iechyd</a> | Mae "Gwerth mewn Gofal Iechyd" yn golygu canolbwyntio ar gael y canlyniadau iechyd gorau posibl i gleifion tra hefyd yn ystyried y gost o gyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'n ymwneud â gwneud y mwyaf o'r "gwerth" trwy sicrhau bod manteision triniaeth neu wasanaeth yn gorbwyso'r  |

## Achos dros Newid Gwella Gyda'n Gilydd

Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r heriau a'r cyfleoedd ar gyfer iechyd a gwasanaethau iechyd ym Mhowys



|   |  |
|---|--|
|   | gost a'r risgiau posibl, gan ystyried dewisiadau a nodau'r claf.   |
| <a href="#">Model Gofal Sylfaenol Cymru</a>               | Dull system gyfan genedlaethol o ofal iechyd a lles lleol cynaliadwy a hygyrch, gan ganolbwyntio ar ofal lle, gofal yn agosach at y cartref a gweithio amlbroffesiynol.  |
| <a href="#">Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru</a>         | Mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd cymharol ledled Cymru.   |
| Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal                               | Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd pan fydd claf yn barod i ddychwelyd adref neu drosglwyddo i fath arall o ofal ond mae'n dal i feddiannu gwely ysbyty oherwydd nad yw lleoliad priodol i'w drosglwyddo, fel pecyn gofal i'w galluogi i ddychwelyd adref, ar gael.                                |
| <a href="#">Rhagnodi Cymdeithasol</a>                     | Mae rhagnodi cymdeithasol yn cyfeirio at ffyrdd o gysylltu pobl â'u cymuned i reoli eu hiechyd a'u lles yn well. Gall helpu i rymuso unigolion i gydnabod eu hanghenion, eu cryfderau a'u hasedau personol eu hunain ac i gysylltu â'u cymunedau eu hunain am gefnogaeth gyda'u hiechyd a'u lles personol. |
| <a href="#">Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys</a> | Gweledigaeth ar gyfer dyfodol iechyd a gofal ym Mhowys, wedi'i lywio gan filoedd o leisiau cyhoeddus a staff ledled y sir. Rhan allweddol o'r weledigaeth yw'r Model Integredig Gofal a Lles.  |
| Ymyrraeth gynnar / cymorth a chefnogaeth gynnar           | Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn darparu triniaeth a chefnogaeth i bobl sy'n profi symptomau cynnar salwch. Y nod yw darparu cymorth lefel isel i atal y person rhag datblygu anghenion mwy aciwt yn ddiweddarach.   |